Y Comisiwn Etholiadol

# Etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

## Dogfen trosolwg

Mawrth 2019

Dim ond i etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 23 Mai 2019 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir dod o hyd i'n canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill ar ein gwefan: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent.

# Cynnwys

**Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ..... 2**

**Sut i ddefnyddio'n canllawiau..... 2**

**Y system etholiadol ..... 4**

**Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad Senedd Ewrop?.. 5**

Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ..... 5

Y Swyddog Canlyniadau Lleol ..... 5

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol ..... 6

Y Comisiwn Etholiadol ..... 6

**Cysylltu â ni ..... 8**

2

# Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

1.1 Amcan ein canllawiau yw rhoi cyngor ymarferol i unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd annibynnol neu ar restr plaid mewn etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr, ac i bleidiau gwleidyddol. Mae hefyd yn ganllaw i unrhyw un fydd yn asiant yn yr etholiadau hyn.

1.2 Mae'n cynnwys yr holl broses etholiadol, gan gynnwys beth sydd angen i chi wneud i sefyll fel ymgeisydd unigol neu ar restr plaid a beth sydd angen i bleidiau wneud i gyflwyno rhestrau plaid, y cyfnodau ymgyrchu ac etholiad, datgan y canlyniad a gwariant etholiadol. Mae'n cynnwys deunydd ffeithiol perthnasol, yn ogystal â chanllaw i ffynonellau o fwy o wybodaeth. Gall sefyll mewn etholiad fod yn gymhleth, ond gobeithiwn y bydd ein canllawiau yn ei gwneud hi mor syml â phosibl.

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

# Sut i ddefnyddio'n canllawiau

1.3 Mae chwe rhan i'n canllawiau, yn gosod y gwahanol gamau sy'n rhaid i ymgeiswyr, asiantiaid, pleidiau gwleidyddol fynd drwyddynt wrth frwydro etholiad Senedd Ewrop.

1.4 Mae nifer o ffurflenni ac adnoddau yn cyd-fynd â phob rhan. Gellir cael mynediad atynt drwy ddolenni yn y rhannau unigol. Neu, bydd hyr holl ganllawiau, ffurflenni ac adnoddau perthnasol ar gael ar ein tudalen i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad Senedd Ewrop:

1.5 Mae'r rhannau canlynol yn rhan o'r canllawiau llawn ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop:

- Rhan 1: Ydych chi'n gallu sefyll mewn etholiad
- Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol
- Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid
- Rhan 3 - Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr ac asiantau
- Rhan 4: Yr ymgyrch

Mae'r holl wario ar ran ymgeiswyr rhestr plaid yn wariant ymgyrch plaid. Rydym yn cynhyrchu canllawiau gwario i bleidiau

- Rhan 5: Eich hawl i fynd i ddigwyddiadau etholiadol allweddol
- Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad

1.6 Cyn cychwyn y broses o sefyll mewn etholiad, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn hyderus eu bod yn bodloni'r holl ofynion i sefyll mewn etholiad. Felly, dylech ddarllen Rhan 1 o'n canllawiau yn gyntaf, sy'n cynnwys yr holl nodweddion cymhwyso a gwaharddiadau.

1.7 Unwaith i chi fod yn fodlon y gallwch sefyll, dylech ddarllen Rhan 2a (os ydych am sefyll fel ymgeisydd unigol (h.y. annibynnol)) neu Rhan 2b (os ydych am sefyll fel ymgeisydd ar restr plaid, neu os mai chi yw Swyddog Enwebu plaid wleidyddol sydd am gyflwyno rhestr o ymgeiswyr i sefyll ar ran y blaid), sy'n delio gyda'r broses enwebu a'ch tywys drwy pa ffurflenni sydd angen i chi neu'ch plaid gyflwyno ac erbyn pryd.

1.8 Mae'n rhaid i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau Senedd Ewrop ddilyn rheolau penodol ynghylch faint y gallant wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a beth sy'n rhaid iddyn nhw adrodd ar ôl yr etholiad. Rhan 3 o'n canllawiau yn esbonio'r rheolau hyn ar gyfer ymgeiswyr unigol. Rydym hefyd wedi cynhyrchu canllawiau gwario i bleidiau sy'n cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr ar gyfer etholiad.

1.9 Mae Rhan 4 yn cynnwys beth sydd angen i chi ei gadw mewn cof wrth ymgyrchu, gan gynnwys y rheolau ar gyhoeddi ac arddangos llenyddiaeth ymgyrchu.

1.10 Mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd hawl i fynd i brosesau etholiadol allweddol, sef: agor pleidleisiau post; y bleidlais; y cyfrif; a chyfrif y canlyniad. Hefyd, gall ymgeiswyr benodi cynrychiolwyr i fynd i'r digwyddiadau etholiadol hyn ar eu rhan. Mae manylion eich hawliau a beth i'w ddisgwyl yn y digwyddiadau hyn i'w cael yn Rhan 5

1.11 Yn olaf, mae nifer o bethau y bydd angen i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid wneud unwaith i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, gan gynnwys cyflwyno eu cofnodion gwariant. Mae'r wybodaeth hon i'w gael yn Rhan 6

# 4

1.12 I sicrhau bod y canllawiau mor berthnasol i'r darllenydd â phosibl, rydym wedi rhannu'r rhan fwyaf o'r canllawiau yn adrannau; adran 'Gwybodaeth hanfodol', y dylai pob ymgeisydd, asiant a phlaid wleidyddol ddarllen gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bawb; ac adran 'Gwybodaeth atodol' fydd yn berthnasol i rai yn unig. Byddwch yn cael eich cyfeirio at yr adran 'Gwybodaeth atodol' o bwyntiau perthnasol drwy'r adran 'Gwybodaeth hanfodol'.

## Y system etholiadol

1.13 Cynrychiolir y DU gan 73 Aelod Senedd Ewrop (ASEau). Yn y DU mae 12 rhanbarth Ewropeaidd ac mae rhwng tri a deg ASE yn cynrychioli pob rhanbarth.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar sut mae'r DU yn cael ei chynrychioli yn Senedd Ewrop, a rôl ASEau ar wefan Swyddfa y DU Senedd Ewrop.

| Rhanbarth etholiadol Senedd Ewrop | Nifer o seddi i'w hethol |
|---|---|
| Dwyrain Lloegr | 7 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 5 |
| Llundain | 8 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 3 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 8 |
| Gogledd Iwerddon | 3 |
| Yr Alban | 6 |
| De-ddwyrain Lloegr | 10 |
| De-orllewin Lloegr | 6 |
| Cymru | 4 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 7 |
| Swydd Gaerefrog a'r Humber | 6 |

1.14 Etholir ASEau ym Mhrydain Fawr o dan system gyfrannol rhestr gaeedig. Gofynnir i bleidleiswyr farcio eu papur pleidleisio drwy roi un 'X' yn y blwch drws nesaf i'r ymgeisydd unigol neu'r blaid o'u dewis nhw.

# Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad Senedd Ewrop?

## Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

1.15 Mae gan bob rhanbarth etholiadol Ewropeaidd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb dros yr etholiad yn yr ardal honno. Penodir Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ym Mhrydain fawr gan Orchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.16 Maent yn gyfrifol am y broses enwebu ac am gyfrifo a datgan canlyniad yr etholiad. Bydd Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol i gadw mewn cyswllt a chydlynu gwaith Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eu rhanbarth, ac mae ganddynt rym i roi cyfarwyddiadau iddynt mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad.

1.17 Bydd Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn cynnig sesiynau briffio cyn yr etholiad ac rydym yn eich annog i fynychu, hyd yn oed os ydych wedi bod yn asiant neu wedi sefyll mewn etholiad o'r blaen.

1.18 Mae ein Manylion cyswllt Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pwy yw'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth.

## Y Swyddog Canlyniadau Lleol

1.19 Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am gynnal etholiadau yn eu hardal cyfrif leol. Mae pob ardal awdurdod lleol yn gwneud ardal cyfrif leol ar wahân.

1.20 Fel arfer, swyddog uwch yn yr awdurdod lleol yw'r Swyddog Canlyniadau Lleol. Byddwch yn gallu cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer unrhyw ardal awdurdod

lleol drwy gysylltu â swyddfa etholiadau'r awdurdod lleol perthnasol. Mae manylion cyswllt holl swyddfeydd etholiadol yng Nghymru a Lloegr ar gael yn www.dybleidlaisdi.co.uk. Yn yr Alban, gallwch gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol drwy'r swyddfa etholiadau yn y cyngor lleol.

1.21 Mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am weinyddu'r broses bleidleisio yn eu hardal. Mae eu dyletswyddau yn cynnwys rhoi pleidleisiau post, rhedeg gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn eu hardal.

## Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

1.22 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am gynnal y gofrestr etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol. Gallwch gysylltu gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer unrhyw ardal drwy'r swyddfa etholiadau'r awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, neu'r swyddfa cofrestru etholiadol perthnasol yn yr Alban. Eto, mae manylion i'w cael yn www.dybleidlaisdi.co.uk.

## Y Comisiwn Etholiadol

1.23 Rydym yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2000 gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Fe'n pennir ar hyn o bryd gan ddeg Comisiynydd, gan gynnwys Cadeirydd. Rydym yn adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU drwy bwyllgor a gadeirir gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin.

1.24 Rydym yn gyfrifol am oruchwylio nifer o agweddau ar gyfraith etholiadol - cofrestru pleidiau gwleidyddol a thrydydd partïon, monitro a chyhoeddi rhoddion mawr i bleidiau gwleidyddol cofrestredig, a rheoleiddio gwariant pleidiau cenedlaethol ac ymgeiswyr lleol mewn ymgyrchoedd etholiadol. Mae gennym hefyd rôl yn annog ymwybyddiaeth pleidleiswyr, ac mae gofyn i ni adrodd ar weinyddiaeth rhai digwyddiadau etholiadol penodol, gan gynnwys etholiadau Senedd Ewrop, ac, os oes angen, unrhyw fater etholiadol arall. Rydym hefyd yn achredu arsylwyr i fod yn bresennol mewn gweithgareddau etholiadol.

1.25 Nid ydym yn cynnal etholiadau, ond mae gennym gyfrifoldeb dros ddarparu cyngor a chymorth ar faterion etholiadol i'r rheiny sy'n rhan o'r etholiadau, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddogion Canlyniadau Lleol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

1.26 Rydym ni yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Mae ein manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

# 8

## Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:
E-bost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
Ffôn: 0333 103 1929